

Agenda – Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

Lleoliad: I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Fideogynhadledd drwy Zoom **Manon George**
Dyddiad: Dydd Iau, 17 Medi 2020 Clerc y Pwyllgor
Amser: 09.30 0300 200 6565
SeneddDGCh@senedd.cymru

- 1 **Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau**

- 2 **Craffu ar waith y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth**
(09.30–10.30) (Tudalennau 1 – 21)

- 3 **Papur(au) i'w nodi**
 - 3.1 **Gohebiaeth â Reach plc ynglŷn â'r ad-drefnu arfaethedig**
(Tudalennau 22 – 26)
 - 3.2 **Gohebiaeth â Llywodraeth Cymru ynglŷn â chyllid ar gyfer y sector diwylliannol**
(Tudalennau 27 – 30)
 - 3.3 **Ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad byr ar effaith COVID-19 ar chwaraeon**
(Tudalennau 31 – 34)
 - 3.4 **Gohebiaeth â'r Adran Materion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon**
(Tudalennau 35 – 38)
 - 3.5 **Llythyr gan Chwaraeon Cymru: y wybodaeth ddiweddaraf am y Gronfa Gwydnwch Chwaraeon**
(Tudalennau 39 – 41)



- 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod**

Egwyl

(10.30–10.45)

- 5 Sesiwn friffio gan Lywodraeth Cymru ar Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 8)**

(10.45–11.30)

(Tudalennau 42 – 83)

Bethan Webb, Dirprwy Gyfarwyddwr – Isadran y

Alan Jones, Pennaeth Cangen Deddfwriaeth – y Gymraeg

Lowri Jones, Uwch Swyddog Deddfwriaeth

- 6 Ôl-drafodaeth breifat**

(11.30–12.00)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Jim Mullen

Prif Swyddog Gweithredol

Reach ccc

Copi at Dafydd Elis-Thomas AS

Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth

Llywodraeth Cymru

Dyddiad | Date: 10 Awst 2020

Pwnc | Subject: **Ad-drefnu Reach ccc a'r effaith ar newyddiaduraeth yng Nghymru**

Annwyl Jim,

Rydym yn ddiolchgar i Alan Edmunds, Prif Swyddog Gweithredu Reach ccc, a Paul Rowland, Prif Olygydd Media Wales, am ymddangos gerbron y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ar 5 Awst.

Fel y gwyddoch, mae'r Pwyllgor yn pryderu'n fawr am y diswyddiadau arfaethedig gan Reach ccc a'r penderfyniad i uno Media Wales â'r isadran ar gyfer Canolbarth Lloegr am resymau logistaidd a rhesymau ariannol i gynhyrchu rhagor o gynnwys cyffredinol y gellir ei ddefnyddio ar draws platfformau Reach. Rydym hefyd yn pryderu am yr effaith y bydd hyn yn ei chael ar luosogrwydd ac ansawdd newyddiaduraeth yng Nghymru.

O gofio bod gan Gymru lai o ddarparwyr yn y cyfryngau i'w colli yn y lle cyntaf, o'i chymharu â rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig, rydym yn pryderu y gallai gostyngiad yn nifer y newyddiadurwyr sy'n gweithio yng Nghymru arwain at lastwreiddio cynnwys am Gymru, gan ei wneud hyd yn oed yn anoddach i bobl Cymru gael mynediad at wybodaeth a newyddion cywir a perthnasol.

Rydym hefyd yn pryderu bod model busnes Reach yn ffocysu ar gynnwys digidol ac y bydd hyn yn effeithio ar drafodaeth sy'n berthnasol i Gymru. Yn amlwg, mae'r symudiad byd eang tuag at newyddion ar ffurf ddigidol yn hytrach nag ar ffurfiau ffisegol wedi achosi chwyldro yn y sector. Mae Aelodau o'r Senedd wedi mynegi pryderon ers cryn amser fod dull Reach o addasu at y byd newydd hwn, gan ganolbwyntio ar dorri costau a chydgrynhoi, wedi cael effaith andwyol ar y portread o fywyd yng Nghymru. Ymddengys bod y set ddiweddaraf o gynigion yn cyflymu'r duedd hon. Yn ystod y sesiwn dystiolaeth yng nghwmni Alan a Paul, ni chafodd Aelodau sicrwydd na fyddai pobl Cymru yn gweld gostyngiad yn y cynnwys am Gymru, o ran ansawdd a maint, o ganlyniad i'r cynigion hyn.



Senedd Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

SeneddDGCh@senedd.cymru

0300 200 6565

Welsh Parliament

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

SeneddCWLC@senedd.wales

0300 200 6565

Rydym yn gwerthfawrogi bod y pandemig wedi dod â heriau enfawr i sector a oedd yn barod mewn trafferthion. Fodd bynnag, rydym yn eich annog i ystyried eto sut y byddwch yn ymateb i'r heriau hyn. Mae'r pandemig wedi cyflymu'r broses o newid ar gyfer nifer o fusnesau, ond rydym ni o'r farn y dylid gwneud penderfyniadau busnes am yr hirdymor ar ôl mynd i'r afael â COVID, yn hytrach nag yng nghanol yr argyfwng. Mae yna berygl y gallai gwneud penderfyniadau arwyddocaol a pharhaol nawr gael effaith fwy difrifol na phe bai'r penderfyniadau hynny'n cael eu hoedi hyd nes bod gennym ddealltwriaeth gliriach o effaith y pandemig ar y busnes.

Rydym yn pryderu nad yw'r cynigion a gyflwynwyd yn fuddiol i Gymru a democratiaeth yng Nghymru. Fel y clywsom gan Martin Shipton a Pamela Morton o Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr ar 5 Awst, 'Welsh democracy is served by having a thriving media sector... [and the] constant chipping away at journalists and the number of journalists employed is very debilitating and is not good for Welsh democracy.'

Mae'r Pwyllgor yn eich annog i ystyried uno holl fusnesau Reach yng Nghymru yn hytrach nag uno Media Wales ag un o is-adrannau Reach yn Lloegr, a allai gael effaith ddifrifol ar y sylw a roddir i Gymru o Gymru. Byddai creu is-adran ar gyfer Cymru gyfan yn sicrhau bod y gwaith o gynhyrchu teitlau o Gymru, yn ogystal â'r rheolaeth olygyddol dros y teitlau hyn, yn aros yng Nghymru. Yn eich ymateb i'r llythyr hwn, byddwn yn ddiolchgar pe gallech nodi pa ystyriaeth, os o gwbl, rydych wedi'i rhoi i'r cynnig hwn, gan amlinellu manteision ac anfanteision cynnig o'r fath yn eich barn chi.

Roedd Aelodau hefyd yn pryderu'n fawr ar ôl clywed na wnaethoch drafod eich cynigion â Llywodraeth Cymru. Ym mis Mai 2018, cyhoeddodd y Pwyllgor [adroddiad ar newyddiaduraeth newyddion](#), a daeth i'r casgliad bod dirywiad newyddiaduraeth newyddion fasnachol 'yn fater polisi cyhoeddus dwys, y mae angen i wneuthurwyr polisi ar bob lefel, yn enwedig Llywodraeth Cymru, fynd i'r afael ag ef fel mater o flaenoriaeth'. Yn dilyn y cynigion presennol gan Reach, dywedodd y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth wrth y Senedd ar [15 Gorffennaf](#): 'dwi hefyd yn ymrwmo i ofyn am gyfarfod gyda phenaethiaid Reach'. Felly, rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Dirprwy Weinidog.

Oherwydd bod hwn yn fater pwysig sydd o bosibl â chanlyniadau difrifol i newyddiaduraeth yng Nghymru, byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb cyn gynted â phosibl.

Yn gywir,



Helen Mary Jones AS

Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



Reach

12th August 2020

Helen Mary Jones MS
Chair, Culture, Welsh Language and Communications Committee
Senedd Cymru
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1SN

Dear Chair

Thank you for the opportunity to appear before the Committee last week. I was already in the process of writing to the committee so Jim Mullen, our CEO, has asked me to include the points you raised in your letter to him in this reply.

We do understand the concern of the committee about changes at Reach but would like to reassure members about the commitment of Reach plc to continue to serve our Welsh audience – whether they choose to access our content via print or our digital services.

Our investment and commitment to our digital services, in addition to maintaining our print publications, are key to the future of our organisation and to the continuation of effective democratic scrutiny of events in Wales. While we were very pleased to hear the appreciation of the committee for the Western Mail and other print publications it is disappointing there is not more of an appreciation of the success of Wales Online which continues to attract a leading audience in Wales. In June the site had 9.7 million unique visitors, compared with 4.9 million in June last year. This is far in excess of the audience achieved by BBC Wales News.

I was pleased to see one of the committee members retweeting a political story from Wales Online recently. Far from the suggestion that we do not regularly cover Committee matters from the Senedd, the truth is we regularly cover them – the links below are some recent examples. In addition to news coverage like the examples below, we regularly refer to proceedings in live blogs or to inform wider reporting. We monitor the

Contd

Reach

Reach plc, One Canada Square,
Canary Wharf, London, E14 5AP

T: 020 7293 3000

www.reachplc.com

Registered Office: One Canada Square, Canary Wharf, E14 5AP Registered No. 82548 England & Wales

Reach

scrutiny committee agendas daily, and at the start of the pandemic covered several hearings live – giving them a far wider audience and more comprehensive coverage than would otherwise have been the case.

<https://www.walesonline.co.uk/news/wales-news/schools-wales-education-kirsty-williams-18556320>

<https://www.walesonline.co.uk/news/health/coronavirus-wales-lockdown-second-wave-18609096>

<https://www.walesonline.co.uk/news/health/coronavirus-test-covid19-false-negative-18527236>

<https://www.walesonline.co.uk/news/health/frontline-healthcare-workers-reflect-wales-18599788>

The impact of the COVID-19 pandemic on circulation sales has been significant but the impact on advertising, particularly at a local level, has been even more dramatic with around 80% of advertisers at a local level stopping advertising across the industry when the impact was at its worst.

It is essential that Reach continues to adapt to the changing media landscape and we believe passionately that the success of our commercial model is key to ensuring a healthy independent local media sector in Wales and across the UK.

There were a number of aspects of the Committee's concerns that we can immediately address.

The first is that there is no "merging Media Wales with the English Midlands" and to characterise this as such is to misrepresent the changes we are making. The Media Wales operation remains as part of the Reach structure with all editorial decisions for our Media Wales titles remaining under Paul Rowland's remit. What we are doing is increasing the efficiency of our organisation by pooling some logistical/commercial operations. By acting more efficiently we can prolong the profitability of our print titles and ensure that we continue to provide the scrutiny that the Committee values.

In terms of the concern around Wales not having a voice at a senior level in Reach – the fact is Wales now has greater representation on the Executive Board than it has ever had with me as Chief Operating Officer of the Group, a former editor of the Western Mail with responsibility for regional titles including those in Wales.

Contd

Reach

Reach plc, One Canada Square,
Canary Wharf, London, E14 5AP

T: 020 7293 3000

www.reachplc.com

Registered Office: One Canada Square, Canary Wharf, E14 5AP Registered No. 82548 England & Wales

Reach

In terms of creating an 'all-Wales' division – this would currently be more disruptive and costly than maintaining the existing structure as historically the North Wales titles have always been part of the Daily Post series produced in Liverpool. We do not wish to add further complexity and disruption to this proposed reorganisation. It should be remembered that protecting the status quo around editorial control in Wales was a driving factor in the way we have implemented these required changes.

With around 20 journalist roles likely to go in Wales as a result of the changes we will still employ around 120 journalists in Wales. We also continually look to innovate and develop new products - illustrating how digital will be part of the solution for local community news.

Reach has significant financial commitments including pension contributions of several million pounds per month. While we were able to take short-term measures to help us through the early months of this crisis we are now at a point where a more permanent solution is required to provide the business with a stable platform and enable it to protect its news titles for the long term.

We will be pleased to meet with the Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism to discuss the planned changes and as we referenced at the meeting we will continue to communicate with all members who wish to discuss these matters. We would also welcome Committee support around the recent CMA proposals to address the imbalance in the digital marketplace and would welcome an opportunity to discuss this further with the Deputy Minister. I attach a copy of the CMA recommendations for the Committee's information.

Yours sincerely



Alan Edmunds
Group Chief Operating Officer, Reach plc

Reach

Reach plc, One Canada Square,
Canary Wharf, London, E14 5AP

T: 020 7293 3000

www.reachplc.com

Registered Office: One Canada Square, Canary Wharf, E14 5AP Registered No. 82548 England & Wales

Dafydd Elis-Thomas

Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a
Thwristiaeth

6 Gorffennaf 2020

Annwyl Dafydd,

Arian ychwanegol Llywodraeth y DU ar gyfer diwylliant

Hoffwn ymuno â chi i groesawu'r newyddion gan Lywodraeth y DU ei bod yn buddsoddi £1.57 biliwn mewn diwylliant. Gan ragweld penderfyniad Llywodraeth Cymru ynghylch sut y bydd y £59 miliwn sy'n dod i Gymru yn cael ei wario, hoffwn gael sicrwydd gennych y bydd yr holl swm yn cael ei ddefnyddio i gefnogi'r sector diwylliannol. Gwyddom fod y sector hwn wedi dioddef colled drychinebus o ran incwm yn sgil cau lleoliadau dros nos. O ystyried y gallai aildddechrau gweithgarwch cyhoeddus fod rai misoedd i ffwrdd i lawer, bydd angen pob ceiniog i gefnogi'r celfyddydau, y diwydiannau creadigol, amgueddfeydd ac orielau.

Mae £59 miliwn yn swm sylweddol o arian, ond mae gryn dipyn yn llai na chyfran sy'n seiliedig ar boblogaeth o'r cyfanswm o £1.57 biliwn. A allech gadarnhau sut y pennwyd cyfran Cymru o'r cyfanswm cyllid hwn, ac a ydych yn fodlon ag ef?

Fel rhan o ymchwiliad y Pwyllgor i effaith COVID-19 ar feysydd o fewn ei gylch gwaith, clywsom gan Gyngor Celfyddydau Cymru am faint y bygythiad i'n lleoliadau a'n hartistiaid. Dywedodd Nick Capaldi, Prif Weithredwr Cyngor y Celfyddydau, wrth y Pwyllgor sut yr oeddent wedi blaenoriaethu cyllid drwy gronfeydd sefydlogi a chydnerthedd y Cyngor, ond hyd yn oed wedyn, dim ond digon o gyllid tan fis Medi oedd ar gael i gefnogi'r sector. Rydym yn gobeithio y



Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

 SeneddDGCh@senedd.cymru

 0300 200 6565

Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

 SeneddCWLC@senedd.wales

 0300 200 6565

bydd yr arian ychwanegol hwn yn achubiaeth i'n lleoliadau diwylliannol er mwyn sicrhau y gallant oroesi'r storm nes y bydd cynulleidfaoedd yn gallu dychwelyd yn llawn. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech nodi sut y caiff y cyllid ychwanegol ei ddefnyddio i gefnogi lleoliadau celfyddydol a diwylliannol.

Clywsom hefyd fod bylchau mawr yn y gefnogaeth i'r rhai sy'n gweithio yn y celfyddydau a'r diwydiannau creadigol. Yn ein cyfarfod ar 12 Mai, dywedoch fod Llywodraeth Cymru yn ymwybodol bod gweithwyr llawrydd wedi'i chael yn anodd cael cymorth gan Gynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig (SEIS) Llywodraeth y DU. Gwn eich bod yn rhannu fy mhryderon y dylai'r cynllun hwnnw a'r Cynllun Cadw Swyddi barhau y tu hwnt i fis Hydref eleni. Os caiff y cynlluniau hyn eu dirwyn i ben yn unol â'r amserlen bresennol, mae posibilrwydd y bydd nifer fawr o swyddi'n cael eu colli a chaledi economaidd sylweddol i'r rhai sy'n gweithio yn y sector. A allwch gadarnhau a fydd Llywodraeth Cymru, gyda'r cyllid ychwanegol a gyhoeddwyd yr wythnos hon, yn cynllunio rhyw fath o gymhorthdal incwm i unigolion sy'n gweithio yn y celfyddydau a'r diwydiannau creadigol?

Rydym yn prysur redeg allan o amser os ydym am sefydlogi a chynnal ein talent a'n seilwaith artistig. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am sut y bydd Llywodraeth Cymru yn blaenoriaethu'r cyllid ychwanegol i sicrhau nad yw ein sefydliadau celfyddydol yn gorfod cau eu drysau neu ddiswyddo aelodau staff gwerthfawr.

Yn olaf, mae eich ymrwymiad personol i ddiwylliant a'r celfyddydau yn hysbys iawn. Gobeithiaf, felly, y gallwn ddibynnu arnoch i sicrhau y bydd y buddsoddiad yn y seilwaith diwylliannol yn Lloegr yn cael ei adlewyrchu gyda phenderfyniad tebyg yma yng Nghymru er mwyn manteisio i'r eithaf ar yr arian sydd ar gael.

Yn gywir



Helen Mary Jones

Cadeirydd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu





Helen Mary Jones AS
Cadeirydd - Y Pwyllgor Diwylliant, yr Iaith Gymraeg a Chyfathrebu
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

03 Awst 2020

Annwyl Helen,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 6 Gorffennaf parthed cyhoeddiad Llywodraeth y DU o becyn gwerth £1.57bn o gefnogaeth i'r sector diwylliant. Derbyniwyd £59m gan Lywodraeth Cymru.

Byddwch yn ymwybodol erbyn hyn i Lywodraeth Cymru gyhoeddi cronfa gwerth £53m i helpu sector diwylliant amrywiol Cymru i ddelio ag effaith y pandemig coronafirws. Cyfanswm y pecyn cyllido yw £53m yn 2020-21 sy'n cynnwys cyllid refeniw o £50m a £3m cyfalaf.

Bwriad y gronfa yw darparu cefnogaeth hanfodol i theatrau, orielau, lleoliadau cerdd, safleoedd treftadaeth, amgueddfeydd, gwasanaethau archif, digwyddiadau a gwyliau, a sinemâu annibynnol sydd i gyd wedi gweld colled refeniw dramatig oherwydd y pandemig. Bydd y cyllid yn cefnogi sefydliadau ac unigolion yn y sector.

Daw'r cyhoeddiad ar ben y pecyn portffolio £18m a ddarparwyd ym mis Ebrill, a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru a Chwaraeon Cymru.

Rydym wedi gwrandao a gweithio gyda'n partneriaid ar draws y sectorau diwylliannol a chreadigol i roi'r ail becyn cymorth hwn at ei gilydd.

Bydd y gronfa'n cael ei darparu ar y cyd â Chyngor Celfyddydau Cymru ac mae ganddi "gontract diwylliannol" yn ganolog iddi i helpu'r sector i ddod allan o'r pandemig yn gryfach nag erioed. Bydd y pecyn hwn yn helpu i gefnogi llawer yn y sectorau i ymateb i'r pwysau a'r heriau y mae coronafirws wedi'u gosod arnynt, mae hefyd yn gyfle unigryw i gyflawni newid sylweddol - byddwn yn datblygu contract diwylliannol fel y gall y sector ail-ymddangos yn gryfach. Byddai hyn yn sicrhau bod ymgeiswyr llwyddiannus yn ymrwmo i sicrhau bod buddsoddiad cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio gyda phwrrpas cymdeithasol cadarnhaol wedi'i dargedu.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Dafydd.Elis-Thomas.Davies@llyw.cymru
Correspondence.Dafydd.Elis-Thomas@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cyhoeddir manylion pellach, gan gynnwys canllawiau i ymgeiswyr, yn ddiweddarach ym mis Awst.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'E. Elis-Thomas'.

Yr Arglwydd Elis-Thomas AS/MS

Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth
Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism

Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ar Effaith Argyfwng COVID-19 ar Chwaraeon.

Argymhelliad 1: Dylai Llywodraeth Cymru lobïo Llywodraeth y DU i sicrhau bod y Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig yn cael ei ddiwygio i wneud yn siŵr nad yw unrhyw un sy'n hunangyflogedig yn y sector chwaraeon a gweithgareddau corfforol yn disgyn drwy'r bylchau.

Ymateb y Llywodraeth: Derbyn.

Rydym yn parhau i drafod â Llywodraeth y DU i sicrhau bod cymaint o bobl hunangyflogedig yng Nghymru ag y bo modd yn gallu cael mynediad at y cynllun. Rwy'n llawn ymwybodol y bydd llawer o'r sectorau yn fy mhortffolio i ymhlith yr olaf i adfer o'r argyfwng, ac y bydd angen cymorth arnynt am gyfnod hwy. Ysgrifennodd y Gweinidog Cyllid a Gweinidog yr Economi lythyr ar y cyd at Ganghellor y DU ym mis Mehefin ynghylch pwysigrwydd estyn y Cynllun Cadw Swyddi a'r Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig, ac rydym yn parhau i gyflwyno'r achos dros y sectorau hynny sydd wedi dioddef effeithiau difrifol o ganlyniad i'r argyfwng.

Goblygiadau Ariannol: Dim.

Argymhelliad 2: Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r awdurdodau lleol i ystyried y cymorth sydd ar gael i ymddiriedolaethau hamdden, a bod yn barod i estyn y cymorth cyhoeddus sydd ei angen i sicrhau bod ymddiriedolaethau hamdden a chlybiau cymunedol yn goroesi.

Ymateb y Llywodraeth: Derbyn.

Rydym wedi bod yn trafod â Community Leisure UK, y sefydliad cynrychiadol, ac â'r gweithredwyr hamdden eu hunain drwy gydol yr argyfwng, a bydd y trafodaethau hyn yn parhau. Rydym hefyd yn gweithio gyda phartneriaid allweddol megis Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i drafod y cymorth sy'n cael ei roi i helpu ymddiriedolaethau hamdden a grwpiau cymunedol. Mae Chwaraeon Cymru hefyd wedi ymrwmo i helpu ymddiriedolaethau hamdden yng Nghymru. Mae hefyd wedi cefnogi Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wrth ddarparu cyngor i gynghorau ar gefnogi gweithredwyr hamdden. Er yr ymdrechion hyn, rydym yn gwybod y bydd

anghenion y rhannau hyn o'r sector yn y tymor hwy yn fwy na'r cymorth cyllid sydd ar gael ar hyn o bryd, ac rydym wedi bod yn galw ar Lywodraeth y DU i ddarparu cymorth ychwanegol.

Goblygiadau Ariannol: Ni fydd unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol i Lywodraeth Cymru.

Argymhelliad 3: Dylai cynllun adfer a chymorth ariannol Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector fynd i'r afael â'r bwlch cynyddol eang rhwng ac o fewn gwahanol grwpiau demograffig mewn perthynas ag anweithgarwch corfforol.

Ymateb y Llywodraeth: Derbyn.

Pan fydd Chwaraeon Cymru yn darparu cymorth maent yn ystyried y meysydd hynny ac arnynt yr angen mwyaf. Yn ôl Chwaraeon Cymru, bu effaith sylweddol ar lefelau gweithgarwch pobl, gyda'r effeithiau mwyaf andwyol ar rai o'r grwpiau economaidd-gymdeithasol is. Roedd strategaeth Chwaraeon Cymru eisoes wedi nodi y dylid targedu adnoddau i gefnogi'r rheini sydd wedi dioddef yr effeithiau gwaethaf fel mater o flaenoriaeth. Mae'r cyfnod hwn wedi cynyddu'r angen hwnnw, nid yn unig o fewn o sector chwaraeon ond hefyd ar draws portffolios â blaenoriaeth, yn ystod argyfwng COVID-19 wrth iddo barhau ac yn y dyfodol. Mae cymorth Chwaraeon Cymru ar gyfer sefydliadau partner eisoes wedi cael ei ganolbwyntio i sicrhau bod y buddsoddiadau a'r adnoddau'n cael yr effaith fwyaf posibl wrth fynd i'r afael â'r bwlch anghydraddoldeb.

Goblygiadau Ariannol: Ni fydd unrhyw oblygiadau ychwanegol i Lywodraeth Cymru.

Argymhelliad 4: Dylai Llywodraeth Cymru arwain trafodaethau â chynrychiolwyr o'r sectorau iechyd a chwaraeon, i bennu cyfeiriad polisi cydgysylltiedig ar gyfer y tymor hwy mewn perthynas â gweithgarwch corfforol ac iechyd y cyhoedd.

Ymateb y Llywodraeth: Derbyn.

Rydym eisoes yn cynnal trafodaethau rheolaidd â phartneriaid allweddol fel Iechyd Cyhoeddus Cymru, Cymdeithas Chwaraeon Cymru a Chwaraeon Cymru i sicrhau ein bod yn gweithredu mewn ffordd gydgysylltiedig wrth ddatblygu polisiau ar gyfer y dyfodol sy'n ymwneud â chwaraeon, gweithgarwch corfforol ac iechyd y cyhoedd. Mae eisoes strategaeth ar gyfer cysylltu iechyd a chwaraeon drwy Bartneriaeth Gweithgarwch Corfforol Cymru ac mae'r cynnydd cynnar a wnaed wedi bod yn gadarnhaol. Mae mentrau megis y Gronfa Iach a Gweithgar, a'r gweithgareddau wedi eu cynllunio ar gyfer yr holl deulu ac oedolion hŷn a gafodd eu hamlinellu yn y strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach, yn rhoi'r sail ar gyfer y gwaith hwn – er ei bod yn bosibl y bydd angen adolygu eu diben a'r ffordd maent yn cael eu darparu yng ngoleuni COVID-19. Mae gweithgarwch corfforol yn un o'r ymyriadau mwyaf cadarnhaol wrth helpu pobl Cymru i reoli eu hiechyd meddyliol a chorfforol a'u llesiant. Mae lefelau uwch o gydweithio ar draws sectorau sy'n creu rhagor o gyfleoedd hygyrch i fod yn gorfforol weithgar yn chwarae rhan bwysig yn ein cynllun ar gyfer adfer o COVID-19.

Goblygiadau Ariannol: Ni fydd unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol i Lywodraeth Cymru.

Argymhelliad 5: Dylai Llywodraeth Cymru roi i'r Pwyllgor Fanylion eu trafodaethau â Llywodraeth y DU mewn perthynas ag ailddechrau chwaraeon mewn modd cydgysylltiedig.

Ymateb y Llywodraeth: Derbyn.

Mae Llywodraeth Cymru wedi trafod yn rheolaidd â swyddogion Llywodraeth y DU o ddechrau'r argyfwng presennol, ac mae'n parhau i wneud hynny wrth i'r sefyllfa newid a'n canllawiau ar gynnal digwyddiadau chwaraeon unwaith eto ddatblygu.

Mae fy swyddogion yn cael trafodaeth bord gron â Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon unwaith yr wythnos. Mae Cabinet Chwaraeon y DU hefyd yn rhoi cyfleoedd ar gyfer rhagor o drafod.

Goblygiadau Ariannol: Ni fydd unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol i Lywodraeth Cymru.

Argymhelliad 6: Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau ar gynulladau torfol ar gyfer digwyddiadau chwaraeon, sy'n cydnabod nad yw dull rhy gyffredinol o weithredu'n yn addas. Dylai'r canllawiau hyn gael eu datblygu ar y cyd â chyrrff llywodraethu chwaraeon a darparwyr cyfleusterau cyn gynted ag y bo modd.

Ymateb y Llywodraeth: Derbyn.

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n datblygu canllawiau ar ddechrau cynnal digwyddiadau yn yr awyr agored unwaith eto mewn modd diogel a graddol, yn seiliedig ar y cyngor diweddaraf ar COVID-19 a'n hadolygiadau parhaus o reoliadau'r coronafeirws yng Nghymru. Rydym eisoes wedi cyhoeddi canllawiau ar gyfer y sector a bydd y gwaith hwnnw'n parhau wrth i'r sefyllfa ddatblygu. Bydd canllawiau ar ddechrau cynnal digwyddiadau dan do unwaith eto yn dilyn maes o law. Mae Llywodraeth Cymru yn cydweithio gyda'r diwydiant digwyddiadau yng Nghymru sy'n cynnwys perchnogion/gweithredwyr lleoliadau yn ogystal â Chwaraeon Cymru, Cymdeithas Chwaraeon Cymru a rhanddeiliaid eraill ar draws ein sectorau chwaraeon a hamdden.

Goblygiadau Ariannol: Ni fydd unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol i Lywodraeth Cymru.

Rt Hon Oliver Dowden CBE MP
Secretary of State for Digital, Culture, Media and Sport

4 June 2020

Dear Oliver

Report on the impact of the COVID 19 outbreak on the arts sector in Wales

I attach a copy of the Culture, Welsh Language and Communications Committee's report on the impact of the COVID 19 outbreak on the arts sector in Wales.

The report reflects the concerns we heard that this pandemic may result in many organisations going out of business and artists and performers losing their livelihoods. I know that the UK Government is working on the immediate challenge of reopening cultural hubs and the longer term challenge of renewing the arts sector once the lockdown is lifted.

I note that you have appointed a Commissioner for Cultural Recovery and Renewal, Neil Mendoza, to lead a Cultural Renewal taskforce. Initiatives and guidance agreed at the UK level are likely to have an impact on Welsh venues and businesses. I would be grateful if you could set out how representatives from venues and arts organisations in Wales will be included in this work and that of the Entertainment and Events Working Group.

Wales is heavily reliant on visitors from England to our cultural events. It is vital that Wales is represented in the UK Government's efforts to help get the cultural and creative sectors back up and running. In order to inform our stakeholders of the work in this area, please can you set out how you are working with the Welsh Government and representatives from Wales on these efforts?



Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

✉ SeneddDGCh@senedd.cymru

☎ 0300 200 6565

Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

✉ SeneddCWLC@senedd.wales

☎ 0300 200 6565

The report makes recommendations on the extension of financial support schemes, and our desire to ensure no artists fall through the gaps in eligibility for them, for this reason I am also writing to the Chancellor of the Exchequer, Rt Hon Rishi Sunak MP.

Many people have contacted me with their concerns about their pressing financial difficulties and I would like to give them assurances that Wales is represented at the UK level of efforts to support our arts. I would therefore be grateful if you could respond at your earliest convenience.

Yours sincerely,

A handwritten signature in black ink that reads "Helen Mary Jones". The signature is written in a cursive style with a small flourish at the end.

Helen Mary Jones

Chair of the Culture, Welsh Language and Communications Committee





Department for
Digital, Culture,
Media & Sport

Caroline Dinenage MP
Minister for Digital and Culture
4th Floor
100 Parliament Street
London SW1A 2BQ

E:enquiries@culture.gov.uk

www.gov.uk/dcms

Helen Mary Jones
Chair of Culture, Welsh Language and
Communications Committee
SeneddCWLC@senedd.wales

19 August 2020

Our Ref:
MC2020/08821

Dear Ms Jones,

Thank you for your correspondence of 4 June, to the Secretary of State for Digital, Culture, Media and Sport, the Rt Hon Oliver Dowden CBE MP, enclosing a copy of the Culture, Welsh Language and Communications Committee's report on the impact of the COVID-19 outbreak on the arts sector in Wales. I am responding as the Minister for Digital and Culture.

I appreciate you sending us this report, which I have shared with officials. I would however, like to reassure you that the government recognises that these are incredibly challenging times for all associated with the arts and culture sector across the whole of the UK. This sector has, to some degree, been hit harder by the impact of lockdown measures than other sectors, and I fully understand your concerns.

As you will know, on 5 July the government announced an unprecedented £1,57 billion financial package to support the sector. Culture and Heritage are at the heart of communities across the country, enriching the lives of millions, and this financial investment is testament to the role this sector plays in our lives. The fund will protect cultural assets of international, national and regional importance, including supporting the levelling up agenda by preventing the loss of valuable cultural fabric from our towns and regions. This fund will support organisations through to the Spring of 2021, and as you will know, Welsh cultural organisations will also benefit from this funding with £59 million being provided to the Welsh Parliament under the Barnett formula. It is of course up to the Welsh Parliament how this money is spent.

DCMS has also been working closely with Arts Council England to monitor and respond to the challenges being faced by the arts and cultural sectors, and Arts Council England's £160 million emergency response package has already helped over 10,000 individuals and organisations. I am aware that the Arts Council of Wales has implemented similar support packages, which is a positive step.


As we ease the lockdown conditions, myself, ministers and officials are continuing to consult the creative and cultural sectors extensively to ensure we fully understand the potential impacts of the COVID-19 outbreak on the sector. As you may know, the Secretary of State recently revealed a five stage roadmap that the UK Government will work through to get the performing arts sectors back up and running. On 9 July we also published guidance for people who work in performing arts, including arts organisations, venue operators and participants which will help people understand how they can work and take part in the performing arts safely, and keep

their audiences safe. I understand the Welsh Parliament have also published their guidance too.

While the arts remain a devolved issue, my officials will continue to work closely with the devolved administrations to ensure that our arts and cultural sectors across the country are able to recover successfully from this current crisis.

Thank you once again for writing and I hope this information is useful.

With best wishes,

A handwritten signature in black ink, reading 'Caroline Dinenage'. The signature is written in a cursive, flowing style.

Caroline Dinenage MP
Minister of State for Digital and Culture



Annwyl Helen Mary Jones AS,

Fel y gwyddoch, roedd Chwaraeon Cymru yn ddiolchgar iawn i'r pwyllgor am y gwaith a wnaeth fel rhan o'r ymchwiliad i effaith Covid-19 ar y sector chwaraeon. Roeddem yn falch iawn o allu darparu tystiolaeth ysgrifenedig a llafar fel rhan o'r broses honno ac, yn unol â'r argymhellion yn yr adroddiad, ysgrifennaf atoch gyda'r wybodaeth ddiweddaraf am y Gronfa Cydnerthedd Chwaraeon.

Isod ceir adolygiad hyd yma o'r cyllid brys sydd wedi'i sicrhau gan Chwaraeon Cymru. Mae'r ffigurau yn gywir o 1af Medi.

Dyraniadau'r Corff Rheoli Cenedlaethol ac Awdurdodau Lleol:

Fel y gwnaethom ei nodi yn ein tystiolaeth ysgrifenedig gychwynnol i'r pwyllgor, y dull gweithredu ar unwaith i ymdrin â heriau COVID19 ar y sector chwaraeon oedd gweithio i sicrhau bod sefydliadau, clybiau a chyfleusterau chwaraeon yn goroesi. Un penderfyniad allweddol yn hyn o beth oedd cael dull mwy hyblyg o ymdrin â'r ffordd yr oedd partneriaid Chwaraeon Cymru yn defnyddio eu cyllid. Fe wnaethom anfon llythyrau at yr holl bartneriaid rydym yn eu hariannu ar 1 Ebrill a chytunwyd y gellid derbyn y rhain drwy e-bost, gyda thaliadau'n cael eu gwneud fel mater o frys. Fe wnaethom nodi y byddem yn hyblyg o ran sut y byddai'r cyllid yn cael ei ddefnyddio, yn enwedig dros y 12 wythnos gyntaf ond fe wnaethom bwysleisio y byddai angen i'r partneriaid sicrhau bod unrhyw newidiadau'n cael eu holrhain i gydymffurfio â disgwyliadau a gofynion archwilio. Cafwyd cyfanswm o 68 o daliadau gwerth cyfanswm o £6,008,953.30 i'w prosesu ar 16 Ebrill, gan adael dim ond nifer fach o bartneriaid a ariennir bob blwyddyn i gael eu talu ar ôl y dyddiad hwn.

Cronfa Cymorth mewn Argyfwng:

Agorwyd y Gronfa Cymorth mewn Argyfwng (ERF) am y tro cyntaf ar 8 Ebrill. Sefydlwyd y gronfa i gefnogi clybiau chwaraeon a sefydliadau dielw sy'n wynebu anawsterau ariannol uniongyrchol. Yn ystod cyfnod y gronfa, cefnogwyd 342 o geisiadau llwyddiannus i gyfanswm ymrwymiad o £605,235.

Cronfa Cymru Actif:

Ar ôl i'r ERF gau, lanswyd Cronfa Cymru Actif (BAWF) ar 7 Gorffennaf. Estynnodd y gronfa hon ddarpariaeth yr ERF ac mae'n cwmpasu elfen ddiogelu i gefnogi clybiau sy'n dal i wynebu anawsterau ariannol, yn ogystal â helpu i baratoi chwaraeon i ddychwelyd i weithgarwch. Mae elfen baratoi'r gronfa yn ymdrin ag amrywiaeth o faterion i ddiogelu unigolion rhag y risg o ddal y coronafeirws. Neilltuwyd cyfanswm o £4m i'w ddyrannu. Yn gyffredinol, gofynnwyd am gyfanswm o £2,856,356 o gymorth.

Mae cyfanswm y cais hwn yn cael ei werthuso fesul cam gan baneli asesu wythnosol a hyd yma mae'r gronfa wedi ymrwymo i gefnogi 363 o geisiadau i gyfanswm gwerth o £331,685.50. Mae nifer yr ymgeiswyr wedi cynyddu fis ar ôl mis wrth i chwaraeon ddychwelyd i weithgarwch.

Y Gronfa Cadernid Chwaraeon (SRF):

Yn ogystal â Chronfa Cymru Actif, lansiodd Chwaraeon Cymru gronfa sy'n seiliedig ar ymgeisio gwerth £4.5m sydd hefyd yn cwmpasu Cyrff Rheoli Cenedlaethol Chwaraeon, Ymddiriedolaethau Hamdden a sefydliadau cenedlaethol eraill sy'n cyfrannu at chwaraeon yng Nghymru. Y cyfanswm y gofynnwyd amdano gan ymgeiswyr ar gyfer y gronfa hon yw £4,168,559. Hyd yma, mae'r gronfa wedi ymrwymo £1,357,813 o gyllid ar draws 21 o geisiadau.

Mae'r SRF a BAWF yn parhau i weithredu ac maent yn cynnal penderfyniadau panel wythnosol i ddyrannu cyllid. Bydd hyn yn parhau hyd y gellir rhagweld, er y rhoddir ystyriaeth hefyd maes o law i sut y gellid ymestyn yr arian ymhellach a fyddai'n edrych ar weithgareddau mwy datblygiadol y tu hwnt i baratoi a diogelu. Caiff hyn ei bennu gan natur y gweithgareddau chwaraeon a'r canllawiau a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru yng nghyswllt chwaraeon a Covid-19.

Effaith yn y dyfodol:

Ar hyn o bryd, mae'n rhy gynnar rhagweld yr effaith y bydd y cronfeydd hyn yn ei chael ar weithgareddau Chwaraeon Cymru dros y blynyddoedd nesaf. Mae'n wir fod addasu cyllid at ddibenion gwahanol yn ystod y flwyddyn i ddarparu cronfeydd wrth gefn brys wedi arwain at ohirio mentrau arfaethedig, neu mewn rhai achosion, eu hatal yn gyfan gwbl. Mae natur hirdymor effaith Covid-19 ar chwaraeon yng Nghymru yn dal yn gymharol ansicr. Mae Chwaraeon Cymru wedi gwneud gwaith ymchwil sylweddol sy'n edrych ar sut mae'r pandemig wedi effeithio ar gyfraddau cyfranogi, hyder y cyhoedd a'r economi chwaraeon. Bydd hyn yn llywio ein dull gweithredu, yn ogystal â gwaith parhaus chwaraeon a Llywodraeth Cymru i archwilio'r map dychwelyd i chwaraeon. Bydd unrhyw gynnydd posibl mewn achosion Covid-19 hefyd yn newid natur y gweithgareddau a ragwelir. Mae'n sicr yn wir y bydd y pwysau ar gyllideb Chwaraeon Cymru, a chyllidebau ehangach y sector chwaraeon yn 2020 o ganlyniad i Covid-19, yn cael effaith barhaol ar weithgarwch corfforol oni bai bod adnoddau ychwanegol yn cael eu canfod neu'n cael eu defnyddio mewn ffordd wahanol. Bydd manylion mwy myfyriol am hyn yn sicr yn amlwg dros y misoedd nesaf ac yn cael eu hadrodd drwy ein hadroddiad blynyddol a'n hamcanestyniadau cynllun busnes a buddsoddi yn y dyfodol.



Yn ogystal â'r pwysau presennol, mae heriau sylweddol yn y tymor hwy yn wynebu'r sector chwaraeon a hamdden. Oherwydd natur y sector a'i ddarpariaeth, bydd yr effaith ar incwm refeniw i glybiau chwaraeon, perchnogion campfeydd a gweithredwyr cyfleusterau yn y tymor byr a'r tymor hwy yn sylweddol. O dan y cyfyngiadau presennol, mae ailagor y sector Chwaraeon a Hamdden wedi bod yn raddol, ar sail capasiti isel ac yn amodol ar ofynion cadw pellter corfforol ac rydym yn cydnabod bod hyder defnyddwyr yn debygol o fod yn isel am gyfnod estynedig. Bydd yr heriau hyn yn effeithio ar hyfywedd y sector yn y tymor canolig a'r hirdymor.

Mae mentrau ariannu presennol, megis Cynllun Cadw Swyddi (JRS) Llywodraeth y DU a'r Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig (SEISS), cynlluniau cymorth busnes Llywodraeth Cymru a Chronfa Cydnerthedd Brys a Chwaraeon (ERF / SRF) Chwaraeon Cymru, wedi achub rhai, ond nid pob rhan o'r sector. Er hynny, ni fydd y mentrau hyn ynddynt eu hunain yn ddigon i ddiogelu swyddi a sicrhau y gall y sector ffynnu unwaith eto, yn enwedig gyda'r JRS a SEISS yn dod i ben ym mis Hydref.

Rydym yn cynnal sgysiau cadarnhaol gyda Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r angen ariannol i ddiogelu'r sector yn y tymor byr ac rydym yn ddiolchgar ein bod wedi gallu defnyddio tystiolaeth ac argymhellion y Pwyllgor fel rhan o'n hachos.

Yours Sincerely / Yr eiddoch yn gywir

Sarah Powell

Chief Executive / Prif Weithredwr

Eitem 5

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 150(2) o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU DRAFFT

20[xx] Rhif (Cy.)

Y GYMRAEG

Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 8) 20[xx]

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (mccc 1) (“Mesur 2011”) yn gwneud darpariaeth ar gyfer pennu safonau ymddygiad mewn perthynas â'r Gymraeg (“safonau”). Mae'r rhain yn disodli'r system o gynlluniau iaith Gymraeg y darperir ar eu cyfer yn Neddf yr Iaith Gymraeg 1993 (p. 38).

Mae adran 26 o Fesur 2011 yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu safonau, ac mae adran 39 yn eu galluogi i ddarparu bod safon yn benodol gymwys i berson drwy awdurdodi Comisiynydd y Gymraeg (“y Comisiynydd”) i roi hysbysiad i'r person hwnnw sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo gydymffurfio â'r safon (“hysbysiad cydymffurfio”).

Mae'r Rheoliadau hyn yn pennu safonau mewn perthynas ag ymddygiad y cyrff a restrir yn Atodlen 6 i'r Rheoliadau. Y cyrff a restrir yw:

- Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Y Cyngor Ceiropractig Cyffredinol
- Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol
- Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol
- Y Cyngor Meddygol Cyffredinol
- Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth
- Y Cyngor Optegol Cyffredinol
- Y Cyngor Osteopathig Cyffredinol
- Y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal

Ymysg pethau eraill, caiff y cyrff hyn (ar wahân i'r Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol) wneud penderfyniadau mewn cysylltiad ag achosion cyfreithiol a ddygir ger eu bron. Mae Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn gwneud darpariaeth ynghylch siarad Cymraeg mewn achosion cyfreithiol yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn awdurdodi'r Comisiynydd (yn ddarostyngedig i eithriadau penodol a nodir yn rheoliad 3(2)) i roi hysbysiad cydymffurfio i'r cyrff hynny, mewn perthynas â safonau a bennir gan y Rheoliadau.

Yn unol ag adran 44 o Fesur 2011, caiff y Comisiynydd (drwy hysbysiad cydymffurfio) ei gwneud yn ofynnol i gorff gydymffurfio ag un neu ragor o'r safonau sy'n benodol gymwys iddo. I adlewyrchu hynny, mae'r safonau a bennir gan y Rheoliadau wedi eu geirio ar ffurf naratif ail berson, hynny yw ar ffurf "rhaid ichi" (ac ystyr "chi" yw'r corff perthnasol ym mhob achos).

Gan ddefnyddio'r hyblygrwydd a ddarperir gan adran 44 o Fesur 2011, caiff y Comisiynydd (os yw hynny'n rhesymol ac yn gymesur a'i fod yn dymuno gwneud hynny) ei gwneud yn ofynnol i gorff gydymffurfio ag un safon o dan rai amgylchiadau, a safon arall o dan amgylchiadau eraill. Er enghraifft, os yw safon yn benodol gymwys i gorff, caiff y Comisiynydd ei gwneud yn ofynnol i'r corff gydymffurfio â'r safon o dan rai amgylchiadau, ond nid o dan amgylchiadau eraill, neu ei gwneud yn ofynnol i'r corff gydymffurfio â'r safon mewn rhai ardaloedd yn unig. Yn yr un modd os yw dwy neu ragor o safonau yn ymwneud ag ymddygiad penodol (er enghraifft, safonau 8 i 11 mewn perthynas ag ateb galwadau ffôn), caiff y Comisiynydd (drwy hysbysiad cydymffurfio) ei gwneud yn ofynnol i gorff gydymffurfio ag un o'r safonau hynny yn unig, neu â safonau gwahanol ar adegau gwahanol, o dan amgylchiadau gwahanol, neu mewn ardaloedd gwahanol, fel sy'n briodol i'r corff. Nid oes rheidrydd ar y Comisiynydd felly i'w gwneud yn ofynnol i bob corff gydymffurfio â phob safon.

Yn unol ag adran 46 o Fesur 2011, rhaid i'r hysbysiad cydymffurfio a roddir i gorff ddatgan y diwrnod gosod, neu'r diwrnodau gosod; hynny yw, y diwrnod neu'r diwrnodau y daw'n ofynnol i'r corff gydymffurfio â safon (neu gydymffurfio â safon mewn modd penodol). Gan ddefnyddio'r hyblygrwydd y darperir ar ei gyfer gan adran 46, caiff y Comisiynydd osod diwrnod gosod cynnar i gorff gydymffurfio â safon (cyn belled â bod hynny o leiaf 6 mis ar ôl dyddiad rhoi'r hysbysiad cydymffurfio cysylltiedig i'r corff), neu osod diwrnod gosod ymhellach i'r dyfodol (er enghraifft mewn perthynas â safonau sy'n fwy heriol).

Pan fo safon a bennir yn y Rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ddeunydd ysgrifenedig gael ei arddangos neu ei ddarparu yn Gymraeg, neu i wasanaeth gael ei ddarparu yn Gymraeg, nid yw hyn yn golygu bod rhaid arddangos neu ddarparu'r deunydd yn Gymraeg yn unig, na bod rhaid i'r gwasanaeth gael ei ddarparu yn Gymraeg yn unig (oni bai bod hynny'n cael ei ddatgan yn benodol).

Mae **Atodlen 1** i'r Rheoliadau yn pennu **safonau cyflenwi gwasanaethau**. Mae adran 28 o Fesur 2011 yn darparu mai ystyr "safon cyflenwi gwasanaethau" yw safon sy'n ymwneud â gweithgaredd cyflenwi gwasanaethau, ac y bwriedir iddi hybu neu hwyluso defnyddio'r Gymraeg, neu weithio tuag at sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, pan gyflawnir y gweithgaredd hwnnw. Ystyr "gweithgaredd cyflenwi gwasanaethau" yw bod person yn cyflenwi gwasanaethau i berson arall, neu yn delio ag unrhyw berson arall mewn cysylltiad â chyflenwi gwasanaethau i'r person hwnnw neu i drydydd person.

Mae **Atodlen 2** i'r Rheoliadau yn pennu **safonau llunio polisi**. Mae adran 29 o Fesur 2011 yn darparu mai ystyr "safon llunio polisi" yw safon sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi ac y bwriedir iddi sicrhau, neu gyfrannu at sicrhau, bod y person sy'n gwneud y penderfyniad polisi yn ystyried un neu ragor o'r canlynol—

- (a) pa effeithiau, os o gwbl, (pa un a yw'r rheini yn bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi yn eu cael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, neu ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;
- (b) sut y gellid gwneud y penderfyniad fel bod y penderfyniad yn cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, neu ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;
- (c) sut y gellid gwneud y penderfyniad fel nad yw'r penderfyniad yn cael effeithiau andwyol, neu fel bod y penderfyniad yn cael effeithiau llai andwyol, ar gyfleoedd i bersonau eraill ddefnyddio'r Gymraeg, neu ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Mae **Atodlen 3** i'r Rheoliadau yn pennu **safonau gweithredu**. Mae adran 30 o Fesur 2011 yn darparu mai ystyr "safon gweithredu" yw safon sy'n ymwneud â swyddogaethau, neu fusnes neu ymgymeriad arall ("gweithgareddau perthnasol") person ("A"), ac y bwriedir iddi hybu neu hwyluso defnyddio'r Gymraeg—

- (a) gan A wrth i A gyflawni ei weithgareddau perthnasol,

- (b) gan A a pherson arall wrth iddynt ddelio â'i gilydd mewn cysylltiad â gweithgareddau perthnasol A, neu
- (c) gan berson ac eithrio A wrth iddo gyflawni gweithgareddau at ddibenion gweithgareddau perthnasol A neu mewn cysylltiad â hwy.

Mae **Atodlen 4** i'r Rheoliadau yn pennu **safonau cadw cofnodion**. Mae adran 32 o Fesur 2011 yn darparu mai ystyr "safon cadw cofnodion" yw safon sy'n ymwneud â chadw cofnodion ynghylch safonau penodedig eraill, cofnodion ynghylch cwynion sy'n ymwneud â chydymffurfedd â safonau penodedig eraill, neu gofnodion ynghylch cwynion eraill sy'n ymwneud â'r Gymraeg.

Mae **Atodlen 5** i'r Rheoliadau yn pennu **safonau sy'n ymdrin â materion atodol**. Mae'r rhain yn fathau penodol o safonau cyflenwi gwasanaethau, safonau llunio polisi, safonau gweithredu a safonau cadw cofnodion sy'n ymdrin â'r materion y cyfeirir atynt yn adran 27(4) o Fesur 2011 (sy'n atodol i'r materion yr ymdrinnir â hwy yn Atodlenni 1 i 4).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Uned y Gymraeg, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 150(2) o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU DRAFFT

20[xx] Rhif (Cy.)

Y GYMRAEG

Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 8) 20[xx]

Gwnaed

Yn dod i rym

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 26, 27, 39 a 150(5) o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011(1), ac wedi cael cymeradwyaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag adran 150(2) o'r Mesur hwnnw, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 8) 20[xx].

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar [].

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(4) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr “aelod o staff” (“*member of staff*”) yw cyflogai i gorff neu berson naturiol sy'n gweithio i gorff ond nid person sydd wedi ei benodi i gorff gan y Cyfrin Gyngor (a rhaid dehongli “staff” (“*staff*”) yn unol â hynny);

ystyr “corff” (“*body*”) yw person a restrir yn Atodlen 6;

ystyr “un sydd wedi cofrestru” (“*registrant*”) yw person sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru ac sydd wedi ei gofrestru â chorff neu'n gwneud cais i fod wedi ei gofrestru â chorff;

(1) 2011 mccc 1.

ystyr “unigolyn” (“*individual*”) yw person naturiol sy’n preswyllo fel arfer yng Nghymru ac yn gweithredu yn ei enw ei hun ond nid yw’n cynnwys un sydd wedi cofrestru sy’n gweithredu yn rhinwedd ei swydd fel un sydd wedi cofrestru;

ystyr “wedi ei gofrestru” (“*registered*”) yw wedi ei gofrestru mewn cofrestr y mae’r corff yn ei chynnal yn rhinwedd unrhyw ddeddfiad.

(5) Yn y Rheoliadau hyn—

- (a) mae cyfeiriadau at unrhyw weithgaredd sy’n cael ei gyflawni gan gorff, neu at unrhyw wasanaeth sy’n cael ei ddarparu gan gorff, i’w darllen fel pe baent yn cynnwys cyfeiriad at y weithgaredd hwnnw yn cael ei gyflawni ar ran y corff, neu at y gwasanaeth hwnnw yn cael ei ddarparu ar ran y corff, gan drydydd parti o dan drefniadau a wneir rhwng y trydydd parti a’r corff;
- (b) yn unol â hynny, oni bai bod hysbysiad cydymffurfio yn darparu i’r gwrthwyneb, bydd corff wedi methu â chydymffurfio â safon mewn cysylltiad â gweithgaredd y mae wedi trefnu iddo gael ei gyflawni, neu wasanaeth y mae wedi trefnu iddo gael ei ddarparu, gan drydydd parti os nad yw’r gweithgaredd hwnnw neu’r gwasanaeth hwnnw wedi ei gyflawni neu ei ddarparu yn unol â’r safon.

(6) Nid oes dim byd yn y Rheoliadau hyn sy’n ei gwneud yn ofynnol i gorff gydymffurfio â safon mewn cysylltiad â gweithgaredd a gyflawnir ganddo neu wasanaeth a ddarperir ganddo pan fo’n cyflawni’r gweithgaredd hwnnw neu’n darparu’r gwasanaeth hwnnw ar ran trydydd parti o dan drefniadau a wneir rhyngddo ef a’r trydydd parti.

Safonau a bennir

2.—(1) Yn Atodlen 1—

- (a) mae Rhan 1 yn pennu safonau cyflenwi gwasanaethau;
- (b) mae Rhan 2 yn darparu bod rhaid i hysbysiad cydymffurfio ei gwneud yn ofynnol i gorff gydymffurfio â safonau penodol a bennir yn Rhan 1 os yw wedi ei gwneud yn ofynnol i’r corff gydymffurfio â safonau penodol eraill;
- (c) mae Rhan 3 yn diffinio nifer o eiriau ac ymadroddion.

(2) Yn Atodlen 2—

- (a) mae Rhan 1 yn pennu safonau llunio polisi;
- (b) mae Rhan 2 yn diffinio nifer o eiriau ac ymadroddion.

(3) Yn Atodlen 3—

- (a) mae Rhan 1 yn pennu safonau gweithredu;
 - (b) mae Rhan 2 yn darparu bod rhaid i hysbysiad cydymffurfio ei gwneud yn ofynnol i gorff gydymffurfio â safonau penodol a bennir yn Rhan 1 os yw wedi ei gwneud yn ofynnol i'r corff gydymffurfio â safonau penodol eraill;
 - (c) mae Rhan 3 yn diffinio nifer o eiriau ac ymadroddion.
- (4) Yn Atodlen 4—
- (a) mae Rhan 1 yn pennu safonau cadw cofnodion;
 - (b) mae Rhan 2 yn diffinio nifer o eiriau ac ymadroddion.
- (5) Yn Atodlen 5—
- (a) mae Rhan 1 yn pennu safonau sy'n ymdrin â materion sy'n atodol i'r materion yr ymdrinnir â hwy yn y safonau a bennir yn Atodlenni 1 i 4;
 - (b) mae Rhan 2 yn gwneud darpariaeth ynghylch dehongli'r safonau atodol.

Safonau sy'n benodol gymwys

3.—(1) Mae Gweinidogion Cymru yn awdurdodi Comisiynydd y Gymraeg i roi hysbysiad cydymffurfio i'r personau a restrir yn Atodlen 6 sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt gydymffurfio ag unrhyw un neu ragor o'r safonau a bennir o dan reoliad 2 ac Atodlenni 1 i 5.

(2) Ond nid awdurdodir y Comisiynydd i roi hysbysiad cydymffurfio i'r Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo gydymffurfio â safonau 23 i 26.

Enw

Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol,
un o Weinidogion Cymru
Dyddiad

ATODLEN 1 Rheoliad 2(1)

Safonau cyflenwi gwasanaethau

RHAN 1

Y SAFONAU

1 Safonau ynghylch gohebiaeth a anfonir gan gorff

(1) Pan fydd corff yn ateb gohebiaeth

Safon 1: Os byddwch yn cael gohebiaeth yn Gymraeg oddi wrth berson yng Nghymru, rhaid ichi ateb yn Gymraeg (os oes angen ateb), oni bai bod y person wedi dweud nad oes angen ateb yn Gymraeg.

(2) Pan fydd corff yn gohebu â sawl unigolyn

Safon 2: Pan fyddwch yn anfon yr un ohebiaeth at sawl unigolyn, rhaid ichi anfon fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth at yr unigolion ar yr un pryd ag y byddwch yn anfon unrhyw fersiwn Saesneg ohoni.

(3) Safonau cyffredinol ynghylch gohebu

Safon 3: Os byddwch yn llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg gyfatebol o ohebiaeth, rhaid ichi beidio â thrin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg (er enghraifft, os yw'r fersiwn Saesneg wedi ei llofnodi, neu os oes manylion cyswllt wedi eu darparu ar y fersiwn Saesneg, rhaid i'r fersiwn Gymraeg gael ei thrin yn yr un modd).

Safon 4: Rhaid ichi ddatgan—

- (a) mewn gohebiaeth, a
- (b) mewn cyhoeddiadau a hysbysiadau sy'n gwahodd personau yng Nghymru i ymateb ichi

neu i ohebu â chi,
eich bod yn croesawu cael
gohebiaeth yn Gymraeg, y
byddwch yn ateb gohebiaeth yn
Gymraeg, ac na fydd gohebu yn
Gymraeg yn arwain at oedi.

2 Safonau ynghylch galwadau ffôn i gorff ac oddi wrth gorff

Safon 5: Pan fydd unigolyn yn cysylltu â chi ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, a bod yr unigolyn hwnnw yn gofyn ichi ddelio â'r alwad yn Gymraeg, rhaid ichi ddelio â'r alwad yn Gymraeg os oes aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael (drwy drosglwyddo'r alwad os oes angen)—

- (a) hyd nes na all yr aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ddarparu gwasanaeth ar bwnc penodol; a
- (b) hyd nes nad oes aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i ddarparu gwasanaeth ar y pwnc penodol hwnnw.

Safon 6: Rhaid i unrhyw systemau ffôn wedi eu hawtomeiddio sydd gennych ddarparu'r gwasanaeth cyfan wedi ei awtomeiddio yn Gymraeg.

Safon 7: Pan fyddwch yn hysbysebu rhif gwasanaeth ffôn wedi ei awtomeiddio, rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

3 Safonau ynghylch corff yn cynnal cyfarfodydd nad ydynt ar agor i'r cyhoedd

*(1) Cyfarfodydd rhwng corff ac
un person gwahoddedig arall*

Safon 8: Os byddwch yn gwahodd un unigolyn ("A") yn unig i gyfarfod (a dim personau eraill)—

- (a) rhaid ichi ofyn i A a yw'n

dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, a hysbysu A y byddwch yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg neu, os oes angen, yn darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw, a

- (b) os yw A wedi eich hysbysu ei fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, rhaid ichi gynnal y cyfarfod yn Gymraeg neu, os oes angen, drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd neu wasanaeth cyfieithu olynol o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod.

(2) Cyfarfodydd rhwng corff a mwy nag un person gwahoddedig

Safon 9: Os byddwch yn gwahodd mwy nag un person i gyfarfod yng Nghymru, rhaid ichi ofyn i bob unigolyn a wahoddir a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod.

Safon 9A: Os byddwch wedi gwahodd mwy nag un person i gyfarfod yng Nghymru, a bod o leiaf 10% o'r gwahoddedigion wedi eich hysbysu eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, rhaid ichi drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod.

Safon 9B: Os byddwch wedi gwahodd mwy nag un person i gyfarfod yng Nghymru, a bod o leiaf 20% o'r gwahoddedigion wedi eich hysbysu eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, rhaid ichi drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod.

Safon 9C: Os byddwch wedi gwahodd mwy nag un person i gyfarfod yng

Nghymru, a bod o leiaf 30% o'r gwahoddedigion wedi eich hysbysu eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, rhaid ichi drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod.

4 Safonau ynghylch cyfarfodydd a drefnir gan gorff sydd ar agor i'r cyhoedd

Safon 10: Os byddwch yn trefnu cyfarfod a gynhelir yng Nghymru sydd ar agor i'r cyhoedd ac y caniateir cyfranogiad cyhoeddus gan unigolyn ynddo, rhaid ichi ddatgan ar unrhyw ddeunydd sy'n ei hysbysebu, ac ar unrhyw wahoddiad iddo, fod croeso i unrhyw un sy'n bresennol ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod.

Safon 11: Pan fyddwch yn anfon gwahoddiadau i gyfarfod a gynhelir yng Nghymru yr ydych yn ei drefnu sydd ar agor i'r cyhoedd ac y caniateir cyfranogiad cyhoeddus gan unigolyn ynddo, rhaid ichi eu hanfon yn Gymraeg.

Safon 12: Os byddwch yn gwahodd personau i siarad mewn cyfarfod yng Nghymru yr ydych yn ei drefnu sydd ar agor i'r cyhoedd ac y caniateir cyfranogiad cyhoeddus gan unigolyn ynddo, rhaid ichi—

- (a) gofyn i bob person a wahoddir i siarad a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg, a
- (b) os yw'r person hwnnw (neu o leiaf un o'r personau hynny) wedi eich hysbysu ei fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd neu wasanaeth cyfieithu olynol o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw (os nad ydych yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb

wasanaeth cyfieithu).

5 **Safonau ynghylch digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir gan gorff**

Safon 13: Os byddwch yn trefnu digwyddiad cyhoeddus yng Nghymru, rhaid ichi sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth hybu'r digwyddiad (er enghraifft, o ran y ffordd y mae'r digwyddiad yn cael ei hysbysebu neu y rhoddir cyhoeddusrwydd i'r digwyddiad).

Safon 14: Os byddwch yn trefnu digwyddiad cyhoeddus yng Nghymru, rhaid ichi sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn y digwyddiad (er enghraifft, mewn perthynas â gwasanaethau a gynigir i bersonau sy'n bresennol yn y digwyddiad, mewn perthynas ag arwyddion yr ydych yn eu llunio a'u harddangos yn y digwyddiad, ac mewn perthynas â chyhoeddiadau sain a wneir ynddo).

6 **Safon ynghylch cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff**

Safon 15: Rhaid i unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd neu ddeunydd hysbysebu yr ydych yn ei lunio ar gyfer unigolyn gael ei lunio yn Gymraeg, ac os byddwch yn llunio'r deunydd yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid ichi beidio â thrin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg.

7 **Safonau ynghylch corff yn arddangos deunydd yn gyhoeddus**

Safon 16: Rhaid i unrhyw ddeunydd yr ydych yn ei lunio ac yn ei arddangos yn gyhoeddus yng Nghymru gael ei arddangos yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin unrhyw fersiwn Gymraeg o'r deunydd yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg.

Safon 17: Rhaid i unrhyw ddeunydd yr ydych

yn ei lunio ac yn ei arddangos mewn arddangosfa gyhoeddus yng Nghymru sydd wedi ei threfnu gennyh gael ei arddangos yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin unrhyw fersiwn Gymraeg o'r deunydd yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg.

8 **Safonau ynghylch corff yn llunio ac yn cyhoeddi dogfennau a ffurflenni**

Safon 18: Os byddwch yn llunio ffurflen sydd i'w chwblhau gan unigolyn, rhaid ichi ei llunio yn Gymraeg.

Safon 19: Os byddwch yn llunio ffurflen gais yr ydych yn ei rhoi ar gael i un sydd wedi cofrestru gael ei gynnwys ar y gofrestr a gynhelir gennyh, rhaid ichi ei llunio yn Gymraeg.

Safon 20: Os byddwch yn llunio dogfen (ond nid ffurflen) sydd ar gael i un neu ragor o unigolion, rhaid ichi ei llunio yn Gymraeg—

- (a) os yw pwnc y ddogfen yn awgrymu y dylid ei llunio yn Gymraeg, neu
- (b) os yw'r gynulleidfa a ragwelir yng Nghymru, a'u disgwyliadau, yn awgrymu y dylid llunio'r ddogfen yn Gymraeg.

Safon 21: Os byddwch yn llunio dogfen neu ffurflen yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid ichi—

- (a) peidio â thrin unrhyw fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg (pa un a ydynt yn fersiynau ar wahân ai peidio);
- (b) peidio â gwahaniaethu rhwng y fersiwn Gymraeg a'r fersiwn Saesneg mewn perthynas ag unrhyw ofynion sy'n berthnasol i'r ddogfen neu'r ffurflen (er enghraifft mewn perthynas ag unrhyw ddyddiad cau ar gyfer

cyflwyno'r ffurflen, neu mewn perthynas â'r amser a ganiateir ar gyfer ymateb i gynnwys y ddogfen neu'r ffurflen); ac

- (c) sicrhau bod y fersiwn Saesneg yn datgan yn glir fod y ddogfen neu'r ffurflen hefyd ar gael yn Gymraeg.

10 Safonau ynghylch achosion cyfreithiol

Safon 22: Rhaid ichi ddatgan mewn cyhoeddiadau, canllawiau a hysbysiadau yr ydych yn eu llunio sy'n hysbysu personau am achosion cyfreithiol y cânt gyflwyno ffurflenni a dogfennau a chyflwyno sylwadau ysgrifenedig ichi yn Gymraeg.

Safon 23: Pan fo un sydd wedi cofrestru yn cysylltu â chi i ymateb i achos cyfreithiol, rhaid ichi ofyn iddo nodi a yw'n dymuno siarad yn Gymraeg mewn unrhyw achos cyfreithiol(1).

Safon 23A: Os yw un sydd wedi cofrestru ("C") wedi eich hysbysu ei fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg mewn unrhyw achos cyfreithiol a gynhelir yn Lloegr, rhaid ichi gynnal yr achos cyfreithiol yn Gymraeg neu, os oes angen, drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd neu wasanaeth cyfieithu olynol o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod.

Safon 24: Pan fo un sydd wedi cofrestru ("C") yn cysylltu â chi am y tro cyntaf i ymateb i achos cyfreithiol, rhaid ichi ofyn i C nodi a yw'n dymuno cael copïau yn Gymraeg o ffurflenni a dogfennau yr ydych yn eu llunio ac sydd i fod ar gael i C (gan gynnwys, er enghraifft, benderfyniadau neu orchmynion ysgrifenedig mewn perthynas â'r

(1) Mae adran 22 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 (p. 38) yn gwneud darpariaeth ynghylch siarad Cymraeg mewn achosion cyfreithiol yng Nghymru.

achos cyfreithiol hwnnw).

Safon 24A: Pa fo un sydd wedi cofrestru (“C”) yn cysylltu â chi i ymateb i achos cyfreithiol, ac yn nodi ei fod yn dymuno cael copïau yn Gymraeg o ffurflenni a dogfennau yr ydych yn eu llunio ac sydd i’w rhoi ar gael i C—

- (a) rhaid ichi ddarparu’r ffurflenni hynny a’r dogfennau hynny yn Gymraeg mewn perthynas â’r achos cyfreithiol hwnnw, a
- (b) rhaid ichi beidio â thrin eu llunio yn llai ffafriol na ffurflenni a dogfennau yr ydych yn eu llunio yn Saesneg.

Safon 25: Pan foch yn cael ffurflenni neu ddogfennau yn Gymraeg oddi wrth un sydd wedi cofrestru (“C”) sy’n ymateb i achos cyfreithiol, rhaid ichi beidio â thrin y ffurflenni hynny neu’r dogfennau hynny yn llai ffafriol na’r rhai yr ydych yn eu cael yn Saesneg (gan gynnwys, ymysg materion eraill, mewn perthynas â’r amserlen ar gyfer cael y ffurflenni hynny a’r dogfennau hynny a hysbysu C am benderfyniadau).

10 Safonau ynghylch gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff

Safon 26: Rhaid ichi ddynodi a chynnal tudalen (neu dudalennau) ar eich gwefan sy’n darparu gwybodaeth (yn Gymraeg)—

- (a) amdanoch chi,
- (b) am y gwasanaethau yr ydych yn eu darparu yn gyffredinol,
- (c) am y gwasanaethau yr ydych yn eu darparu yng Nghymru,
- (ch) am sut i wneud cwyn ynghylch person sy’n cael ei reoleiddio gennych,
- (d) am y gwasanaethau Cymraeg yr ydych yn eu

darparu a sut y gellir cael
gafael ar bob un o'r
gwasanaethau Cymraeg
hynny.

Safon 27: Os oes gennych dudalen Gymraeg ar eich gwefan sy'n cyfateb i dudalen Saesneg, rhaid ichi ddatgan yn glir ar y dudalen Saesneg fod y dudalen hefyd ar gael yn Gymraeg, a rhaid ichi ddarparu dolen uniongyrchol i'r dudalen Gymraeg ar y dudalen Saesneg gyfatebol.

11 **Safonau ynghylch defnydd corff o'r cyfryngau cymdeithasol**

Safon 28: Os bydd person yn cysylltu â chi drwy'r cyfryngau cymdeithasol yn Gymraeg, rhaid ichi ateb yn Gymraeg (os oes angen ateb).

12 **Safonau ynghylch hysbysiadau swyddogol a wneir gan gorff**

Safon 29: Rhaid i unrhyw hysbysiad swyddogol yr ydych yn ei gyhoeddi neu'n ei arddangos yng Nghymru ac sy'n ymwneud â gwasanaeth a ddarperir yng Nghymru gael ei gyhoeddi neu ei arddangos yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin unrhyw fersiwn Gymraeg o hysbysiad yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg ohono.

Safon 30: Pan fyddwch yn cyhoeddi neu'n arddangos hysbysiad swyddogol yng Nghymru sy'n cynnwys testun Cymraeg yn ogystal â thestun Saesneg, rhaid i'r testun Cymraeg gael ei roi mewn safle fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf.

13 **Safonau ar gyfer codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff**

Safon 31: Rhaid ichi hybu unrhyw wasanaeth Cymraeg a ddarperir gennych, a hysbysebu'r gwasanaeth hwnnw yn Gymraeg.

Safon 32: Os byddwch yn darparu gwasanaeth yn Gymraeg sy'n cyfateb i wasanaeth yr ydych yn ei ddarparu yn Saesneg, rhaid i unrhyw gyhoeddusrwydd neu ddogfen yr ydych yn ei lunio neu'n ei llunio, neu wefan yr ydych yn ei chyhoeddi, sy'n cyfeirio at y gwasanaeth Saesneg ddatgan hefyd fod gwasanaeth cyfatebol ar gael yn Gymraeg.

14 Safon ynghylch hunaniaeth gorfforaethol corff

Safon 33: Pan fyddwch yn llunio, yn diwygio neu'n cyflwyno eich hunaniaeth gorfforaethol, rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

RHAN 2

SAFONAU SY'N DDIBYNNOL AR SAFONAU ERAILL – AMODAU ARBENNIG

15 Pan fydd hysbysiad cydymffurfio yn ei gwneud yn ofynnol i gorff gydymffurfio ag un o'r safonau a restrir ar res benodol yng ngholofn 1 o Dabl 1, rhaid i'r hysbysiad cydymffurfio hwnnw hefyd ei gwneud yn ofynnol i'r corff hwnnw gydymffurfio (ym mha fodd bynnag y mae Comisiynydd y Gymraeg yn ystyried ei fod yn briodol) â'r safon neu'r safonau a restrir ar y rhes honno yng ngholofn 2 (neu ag un neu ragor o'r safonau hynny pan fo hynny'n cael ei ddatgan).

TABL 1

<i>Rhes</i>	Colofn 1 <i>Prif safon</i>	Colofn 2 <i>Safon ddibynnol</i>
(1)	Ateb gohebiaeth Safon 1	Safon 4
(2)	Gohebu â sawl person	

	Safon 2	Safon 3 Safon 4
(3)	Codi ymwybyddiaeth ynghylch gohebu yn Gymraeg Safon 4	Safon 1
(4)	Cyfarfodydd â mwy nag un person Safon 9	Un neu ragor o'r canlynol: Safon 9A Safon 9B Safon 9C
(5)	Cyfarfodydd â mwy nag un person Safon 9A, 9B neu 9C	Safon 9
(6)	Dogfennau Safon 18, 19 neu 20	Safon 21
(7)	Achosion cyfreithiol Safon 23	Safon 23A
(8)	Achosion cyfreithiol Safon 23A	Safon 23
(9)	Achosion cyfreithiol Safon 24	Safon 24A
(10)	Achosion cyfreithiol Safon 24A	Safon 24

RHAN 3

DEHONGLI'R SAFONAU

- 16** Rhaid dehongli'r safonau a bennir yn Rhan 1 o'r Atodlen hon fel a ganlyn.
- 17** Nid yw'r safonau ond yn gymwys i'r

graddau y mae corff—

- (a) yn cyflenwi gwasanaethau i berson, neu
- (b) yn delio ag unrhyw berson arall mewn cysylltiad â chyflenwi gwasanaethau—
 - (i) i'r person arall hwnnw, neu
 - (ii) i drydydd person.

18 Nid yw'n ofynnol i gorff lunio, arddangos nac anfon deunydd yn Gymraeg i'r graddau y mae deddfiad arall wedi pennu geiriad dogfen, arwydd neu ffurflen a fyddai'n groes i'r gofyniad hwnnw.

19 At ddibenion y safonau—

- (a) nid yw gofyniad i lunio unrhyw ddeunydd ysgrifenedig, i'w anfon, i'w gyhoeddi, i'w arddangos, i'w roi ar gael neu i'w ddyroddi yn Gymraeg yn golygu mai dim ond yn Gymraeg y dylid llunio'r deunydd, ei anfon, ei gyhoeddi, ei arddangos, ei roi ar gael neu ei ddyroddi, nac yn golygu y dylid llunio'r deunydd yn Gymraeg yn gyntaf (oni bai bod hynny'n cael ei ddatgan yn benodol yn y safon);
- (b) nid yw gofyniad i ddarparu gwasanaeth yn Gymraeg yn golygu mai dim ond yn Gymraeg y dylid darparu'r gwasanaeth hwnnw (oni bai bod hynny'n cael ei ddatgan yn benodol yn y safon).

20 (1) Nid yw'n ofynnol i gorff gyfieithu i'r Gymraeg unrhyw destun nad yw wedi ei lunio ("testun A").

(2) Ni fydd corff yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol os nad yw'n cyfieithu testun A i'r Gymraeg ond gweler is-baragraff (3).

(3) Rhaid i gorff ddefnyddio'r fersiwn Gymraeg o destun A os yw person arall wedi llunio testun A yn Gymraeg yn unol—

- (a) â'i Gynllun Iaith Gymraeg;
 - (b) â dyletswydd i gydymffurfio â safonau;
 - (c) â Rheolau Sefydlog y Cynulliad;
 - (ch) ag adran 35(1C) o Ddeddf 2006; neu
 - (d) â Chynllun Ieithoedd Swyddogol Comisiwn y Cynulliad.
- (4) Yn y paragraff hwn—
- (a) ystyr “Cynllun Iaith Gymraeg” yw cynllun iaith Gymraeg a lunnir yn unol â Rhan 2 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993(1);
 - (b) ystyr “dyletswydd i gydymffurfio â safonau” yw dyletswydd i gydymffurfio â safon o dan adran 25 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011;
 - (c) ystyr “Deddf 2006” yw Deddf Llywodraeth Cymru 2006(2);
 - (ch) ystyr “Rheolau Sefydlog y Cynulliad” yw rheolau sefydlog a wnaed o dan adran 31 o Ddeddf 2006;
 - (d) ystyr “Cynllun Ieithoedd Swyddogol Comisiwn y Cynulliad” yw'r Cynllun a fabwysiadwyd ac a gyhoeddwyd o dan baragraff 8 o Atodlen 2 i Ddeddf 2006.

21

At ddiben safonau 2, 15, 18, 19 ac 20, mae cyfeiriad at—

- (a) deunydd cyhoeddusrwydd neu ddeunydd hysbysebu sy'n cael ei lunio ar gyfer unigolyn,
- (b) ffurflen neu ddogfen sydd ar gael i rai sydd wedi cofrestru neu unigolion,
- (c) ffurflen sydd i'w chwblhau gan unigolyn, neu

(1) 1993 p. 38.

(2) 2006 p. 32.

(ch) gohebiaeth sy'n cael ei hanfon at unigolion,

yn golygu deunydd cyhoeddusrwydd neu ddeunydd hysbysebu, dogfennau, ffurflenni neu ohebiaeth pa un a yw hefyd yn cael ei llunio ar gyfer personau y tu allan i Gymru, ar gael iddynt, i'w cwblhau ganddynt neu i'w hanfon atynt ai peidio.

- 22 Yn safon 6, ystyr system ffôn “wedi ei hawtomeiddio” yw system sy'n ateb galwadau ffôn ac yn arwain personau drwy drefn benodedig gyda neges wedi ei recordio sy'n gofyn, er enghraifft, i berson bwysu bysellau gwahanol er mwyn dewis opsiynau gwahanol.
- 23 At ddibenion y safonau, nid yw “cyfarfodydd” yn cynnwys achosion cyfreithiol.
- 24 Nid yw safon 14 yn gymwys pan wneir y neges y byddwch yn ei chyhoeddi dros system annerch gyhoeddus yn ystod argyfwng neu ymarfer argyfwng.
- 25 Nid yw safon 16 yn gymwys i ddeunydd a arddangosir ar wefan corff.
- 26 (1) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (2), pan fo safon yn cyfeirio at ddeunydd sydd i'w lunio yn Gymraeg, mae cyfeiriadau at beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg neu at beidio â thrin fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg yn cynnwys, ymysg materion eraill (ac yn ychwanegol at faterion penodol y cyfeirir atynt mewn unrhyw safon unigol), beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol o ran—
- (a) golwg y deunydd (er enghraifft mewn perthynas â lliw neu ffont unrhyw destun);
 - (b) maint y deunydd;
 - (c) lleoliad ac amlygrwydd y deunydd mewn unrhyw fan cyhoeddus;

(ch) pryd a sut y caiff y deunydd ei gyhoeddi, ei ddarparu neu ei arddangos;

(d) fformat cyhoeddi deunydd.

(2) Ni fydd corff yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg os nad yw'n anfon, yn arddangos neu'n cylchredeg deunydd Cymraeg y tu allan i Gymru (ac eithrio safon 24A).

27

(1) Nid yw safon 18 yn gymwys i'r ffurflenni a restrir yn is-baragraff (2).

(2) Y ffurflenni yw—

(a) ffurflenni a ddefnyddir gan gorff i recriwtio cyflogeion;

(b) ffurflenni a ddefnyddir pan gyflwynir tendr i ymrwymo i gontract â chorff.

28

At ddibenion safon 20, nid yw cyfeiriadau at ddogfennau neu ddeunyddiau eraill sydd ar gael i unigolion yn cynnwys dogfennau neu ddeunyddiau nad ydynt ond ar gael yn rhinwedd Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000(1).

29

Nid yw safonau 20 a 21 yn gymwys i—

(a) deddfiad a wneir gan gorff neu i ddeddfiad drafft a lunnir gan gorff; neu

(b) unrhyw ddeunydd hysbysebu a gynhwysir mewn dogfen, llyfryn, taflen, pamffled neu gerdyn.

30

At ddibenion safon 24, mae un sydd wedi cofrestru yn cysylltu â chorff am y tro cyntaf pan fydd yn cysylltu â'r corff am y tro cyntaf ar ôl y dyddiad y mae hysbysiad cydymffurfio wedi ei gwneud yn ofynnol i'r corff gydymffurfio â'r safon.

31

Nid yw safonau 26 i 27 (gwefannau) yn gymwys i—

(a) dogfennau y darperir dolen

(1) 2000 p. 36.

iddynt ar wefan, deunydd hysbysebu ar wefan, na chlipiau fideo a sain ar wefan (gweler safonau 20 a 21 am ddarpariaeth benodol mewn perthynas â dogfennau, a safon 15 mewn perthynas â deunydd hysbysebu a lunnir gan gorff);

- (b) gwybodaeth a gyflwynir gan bersonau (ac eithrio'r corff) ar dudalen ryngweithiol a gyhoeddir ar wefan corff (er enghraifft, ar adran ar gyfer sylwadau neu ar fforwm trafod).

32

Nid yw safonau 1 i 4 (gohebu) yn gymwys i ohebiaeth a anfonir drwy'r cyfryngau cymdeithasol (gweler safon 28 mewn perthynas â'r cyfryngau cymdeithasol).

33

Nid yw safon 28 (y cyfryngau cymdeithasol) yn gymwys i—

- (a) dogfennau y darperir dolen iddynt drwy'r cyfryngau cymdeithasol, nac i glipiau fideo a sain a ddarperir drwy'r cyfryngau cymdeithasol (gweler safonau 20 a 21 am ddarpariaeth benodol mewn perthynas â dogfennau, a safon 15 mewn perthynas â deunydd hysbysebu a lunnir gan gorff);
- (b) gwybodaeth a gyflwynir gan bersonau (ac eithrio'r corff) ar gyfrif cyfryngau cymdeithasol corff (er enghraifft, ar adran ar gyfer sylwadau).

34

At ddibenion safonau 29 ac 30, nid yw “hysbysiad swyddogol” yn cynnwys hysbysiadau a ragnodir gan ddeddfiad.

35

(1) At ddibenion safon 33, mae'r cyfeiriad at gorff yn llunio neu'n cyflwyno ei “hunaniaeth gorfforaethol” yn cynnwys, ymysg pethau eraill, y ffordd y mae corff yn

ei gyflwyno ei hun drwy ddatganiadau gweledol, yr enw neu'r enwau a ddefnyddir gan gorff, a'r brandio a'r sloganau a ddefnyddir gan gorff (er enghraifft, brandio a sloganau a argraffir ar ei bapur ysgrifennu).

(2) Nid yw safon 33 yn gymwys i'r graddau y mae deddfiad yn ei gwneud yn ofynnol i gorff ddefnyddio enw cyfreithiol.

36

At ddibenion y safonau, ystyr "deddfiad" yw deddfiad (pa bryd bynnag y'i deddfir neu y'i gwneir) sydd wedi ei gynnwys yn un o'r canlynol, neu mewn offeryn sydd wedi ei wneud o dan un ohonynt—

- (a) Deddf gan Senedd y Deyrnas Unedig; neu
- (b) Mesur neu Ddeddf gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

ATODLEN 2 Rheoliad 2(2)

Safonau llunio polisi

RHAN 1

Y SAFONAU

1 **Safonau ynghylch ystyried effeithiau penderfyniadau polisi a wneir gan gorff ar y Gymraeg**

Safon 34: Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n diwygio polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried pa effeithiau, os o gwbl (pa un a yw'r rheini yn bositif neu'n andwyol), y byddai'r penderfyniad polisi yn eu cael ar—

- (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
- (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Safon 35: Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n diwygio polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried sut y gellid llunio'r polisi (neu sut y gellid newid polisi sydd eisoes yn bodoli) fel y byddai'r penderfyniad polisi yn cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar—

- (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
- (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Safon 36: Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n diwygio polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried sut y gellid llunio'r polisi (neu sut y gellid newid polisi sydd eisoes yn bodoli) fel na fyddai'r penderfyniad polisi yn cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar—

- (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
- (b) peidio â thrin y Gymraeg yn

llai ffafriol na'r Saesneg.

Safon 37: Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen ystyried yr effeithiau (pa un a yw'r rheini yn bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi o dan ystyriaeth yn eu cael ar y canlynol, a cheisio barn ynghylch yr effeithiau hynny—

- (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
- (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Safon 38: Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen ystyried sut y gellid llunio neu ddiwygio'r polisi o dan ystyriaeth fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar y canlynol, a cheisio barn ynghylch hynny—

- (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
- (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Safon 39: Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen ystyried sut y gellid llunio neu ddiwygio'r polisi o dan ystyriaeth fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar y canlynol, a cheisio barn ynghylch hynny—

- (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
- (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Safon 40: Pan fyddwch yn comisiynu neu'n gwneud gwaith ymchwil y bwriedir iddo eich cynorthwyo i wneud penderfyniad polisi, rhaid ichi sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried pa effeithiau, os o gwbl (a pha un a yw'r rheini yn bositif neu'n andwyol), y byddai'r penderfyniad polisi o dan ystyriaeth yn eu cael

ar—

- (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
- (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Safon 41:

Pan fyddwch yn comisiynu neu'n gwneud gwaith ymchwil y bwriedir iddo eich cynorthwyo i wneud penderfyniad polisi, rhaid ichi sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried sut y gellid gwneud y penderfyniad polisi o dan ystyriaeth fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar—

- (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
- (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Safon 42:

Pan fyddwch yn comisiynu neu'n gwneud gwaith ymchwil y bwriedir iddo eich cynorthwyo i wneud penderfyniad polisi, rhaid ichi sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried sut y gellid gwneud y penderfyniad polisi o dan ystyriaeth fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar—

- (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
- (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

RHAN 2

DEHONGLI'R SAFONAU

2

Yn Rhan 1 o'r Atodlen hon, ystyr "penderfyniad polisi" yw unrhyw benderfyniad a wneir gan gorff sy'n ymwneud ag arfer ei swyddogaethau neu gynnal ei fusnes neu ymgymeriad arall, ac mae'n cynnwys, ymysg pethau eraill (ac fel y bo'n briodol i'r corff), benderfyniadau ynghylch—

- (a) cynnwys deddfwriaeth;
- (b) arfer pwerau statudol;
- (c) cynnwys datganiadau polisi;

- (ch) strategaethau neu gynlluniau strategol;
- (d) strwythurau mewnol a lleoliadau swyddfeydd.

3

Yn Rhan 1 o'r Atodlen hon, mae cyfeiriad at effeithiau positif neu effeithiau andwyol yn gyfeiriad at yr effeithiau hynny pa un a ydynt yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.

ATODLEN 3 Rheoliad 2(3)

Safonau gweithredu

RHAN 1

Y SAFONAU

1 Safonau ynghylch corff yn meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi ei weithlu

Safon 43: Rhaid ichi ddarparu cyrsiau hyfforddi er mwyn i'ch cyflogeion ddatblygu—

- (a) ymwybyddiaeth o'r Gymraeg (gan gynnwys ymwybyddiaeth o'i hanes a'i rôl yn niwylliant Cymru);
- (b) dealltwriaeth o'r ddyletswydd i weithredu yn unol â safonau'r Gymraeg;
- (c) dealltwriaeth o sut y gellir defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

Safon 44: Pan fyddwch yn darparu gwybodaeth i gyflogeion newydd (er enghraifft, drwy broses ymsefydlu), rhaid ichi ddarparu gwybodaeth at ddiben codi eu hymwybyddiaeth o'r Gymraeg.

2 Safonau ynghylch corff yn recriwtio ac yn penodi

Safon 45: Pan fyddwch yn asesu'r gofynion ar gyfer swydd newydd neu swydd wag, rhaid ichi asesu'r angen am sgiliau yn y Gymraeg, a'i chategoreiddio fel swydd pan fo un neu ragor o'r canlynol yn gymwys—

- (a) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol;
- (b) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir rhywun i'r swydd;
- (c) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol; neu

(ch) nad yw sgiliau yn y
Gymraeg yn angenrheidiol.

- Safon 45A:** Pan fyddwch yn hysbysebu swydd yr ydych wedi'i chategoreiddio fel un sy'n gofyn bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol, yn ddymunol neu fod angen eu dysgu, rhaid ichi—
- (a) pennu hynny yn yr hysbysiad, a
 - (b) hysbysebu'r swydd yn Gymraeg.

RHAN 2

SAFONAU SY'N DDIBYNNOL AR SAFONAU ERAILL – AMODAU ARBENNIG

- 3** Pan fydd hysbysiad cydymffurfio yn ei gwneud yn ofynnol i gorff gydymffurfio ag un o'r safonau a restrir ar res benodol yng ngholofn 1 o Dabl 1, rhaid i'r hysbysiad cydymffurfio hwnnw hefyd ei gwneud yn ofynnol i'r corff hwnnw gydymffurfio (ym mha fodd bynnag y mae Comisiynydd y Gymraeg yn ystyried ei fod yn briodol) â'r safon neu'r safonau a restrir ar y rhes honno yng ngholofn 2.

TABL 1

	Colofn 1	Colofn 2
<i>Rhes</i>	<i>Prif safon</i>	<i>Safon ddibynnol</i>
	Recriwtio a phenodi	
(1)	Safon 45	Safon 45A

RHAN 3

DEHONGLI'R SAFONAU

- 4** Rhaid dehongli'r safonau a bennir yn Rhan 1 o'r Atodlen hon fel a ganlyn.

5 At ddibenion safonau 45 a 45A yn unig—

(a) mae “swydd” yn cynnwys penodiad cyhoeddus;

(b) ystyr “penodiad cyhoeddus” yw unrhyw benodiad i gorff cyhoeddus neu swydd gyhoeddus.

6 At ddibenion safon 45A nid yw’r gofyniad i hysbysebu swydd yn Gymraeg yn golygu mai dim ond yn Gymraeg y dylid llunio’r hysbyseb, ei hanfon, ei chyhoeddi, ei harddangos, ei rhoi ar gael neu ei dyroddi.

ATODLEN 4 Rheoliad 2(4)

Safonau Cadw Cofnodion

RHAN 1

Y SAFONAU

1 **Safonau ynghylch corff yn cadw cofnodion**

Safon 46: Rhaid ichi gadw cofnod, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, o nifer y cwynion yr ydych yn eu cael sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau.

Safon 47: Rhaid ichi gadw cofnod, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, o nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a gategoreiddiwyd (yn unol â safon 45) fel swyddi sy'n gofyn—

- (a) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol;
- (b) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir rhywun i'r swydd;
- (c) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol; neu
- (ch) nad yw sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol.

RHAN 2

DEHONGLI'R SAFONAU

2 Rhaid dehongli'r safonau a bennir yn Rhan 1 o'r Atodlen hon fel a ganlyn.

3 At ddibenion safonau 46 ac 47, ystyr "blwyddyn ariannol" yw blwyddyn ariannol y corff ei hun.

ATODLEN 5 Rheoliad 2(5)

Safonau sy'n ymdrin â Materion Atodol

RHAN 1

Y SAFONAU

1 **Corff yn rhoi cyhoeddusrwydd i safonau**

Safon 48: Rhaid ichi sicrhau bod dogfen sy'n cofnodi'r safonau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau hynny, ar gael ar eich gwefan.

2 **Corff yn cyhoeddi gweithdrefn gwyno**

Safon 49: Rhaid ichi—

- (a) sicrhau bod gennych weithdrefn gwyno sy'n delio â sut yr ydych yn bwriadu delio â chwynion ynglŷn â'ch cydymffurfedd â'r safonau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a
- (b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r weithdrefn honno ar eich gwefan.

3 **Corff yn llunio adroddiad blynyddol ynglŷn â safonau**

Safon 50: (1) Rhaid ichi lunio adroddiad ("adroddiad blynyddol"), yn Gymraeg, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, sy'n delio â'r modd y bu ichi gydymffurfio â'r safonau yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy yn ystod y flwyddyn honno.

(2) Rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys yr wybodaeth a ganlyn (pan fo'n berthnasol, i'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau y cyfeirir atynt)—

- (a) nifer y cwynion a gawsoch yn ystod y flwyddyn o dan sylw a oedd yn ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy (ar sail y cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 46);
- (b) nifer (ar sail y cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 47) y swyddi newydd a'r swyddi gwag a hysbysebwyd gennych yn ystod y flwyddyn a gategoreiddiwyd fel swyddi sy'n gofyn—
 - (i) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol;
 - (ii) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir rhywun i'r swydd;
 - (iii) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol; neu
 - (iv) nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol.

(3) Rhaid ichi gyhoeddi'r adroddiad blynyddol heb fod yn hwyrach na 6 mis yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi.

(4) Rhaid ichi sicrhau bod copi cyfredol o'ch adroddiad blynyddol ar gael ar eich gwefan.

4 Corff yn darparu gwybodaeth i Gomisinydd y Gymraeg

Safon 51: Rhaid ichi ddarparu i Gomisinydd y Gymraeg (os bydd yn gofyn amdani) unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau cyflenwi gwasanaethau, y safonau llunio polisi neu'r safonau gweithredu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.

RHAN 2

DEHONGLI'R SAFONAU

- 5 Rhaid dehongli'r safonau a bennir yn Rhan 1 o'r Atodlen hon fel a ganlyn.
- 6 At ddiben safon 50, ystyr "blwyddyn ariannol" yw blwyddyn ariannol y corff ei hun.
- 7 At ddiben y safonau, nid yw gofyniad i lunio neu gyhoeddi unrhyw ddeunydd ysgrifenedig yn Gymraeg yn golygu y dylid llunio neu gyhoeddi'r deunydd hwnnw yn Gymraeg yn unig, ac nid yw'n golygu ychwaith y dylid llunio'r deunydd yn Gymraeg yn gyntaf (oni bai bod hynny yn cael ei ddatgan yn benodol yn y safon).

ATODLEN 6 Rheoliad 3

Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Y Cyngor Ceiropractig Cyffredinol

Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol

Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol

Y Cyngor Meddygol Cyffredinol

Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

Y Cyngor Optegol Cyffredinol

Y Cyngor Osteopathig Cyffredinol

Y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal